Wm Margaret Thomas,
Capel Dewi Shop,

YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

MEDI, 1871.

DUW, CARIAD YW.

YN hyderus dywedwn nad oes un argyhoeddiad mor angenrheidiol i'w blanu yn y deall ag mai "Duw, cariad yw." Nid oes un argyhoeddiad sydd mor ffrwythlon ac effeithiol a hwn; nid oes un sydd yn cyffwrdd â'n hymarweddiad mewn cymmaint o fanau, neu yn gweini cymmaint o gymhorth Cristionogol yn y byd hwn, neu mor angenrheidiol i gael ei gludo gyda ni i'r byd tragywyddol. Nis gallwn lai na chyffelybu llawer o bregethwyr a duwinyddion i feistred-gwaith yr Aipht gynt, y rhai a bereit i blant Israel i wneuthur pridd-feini heb roddi iddynt wellt at eu gwaith. Ceisiant genym i fod yn dda heb weini i ni yr egwyddor—y *Spring* fawr gyffrous—a'n gwna ni felly, sef mai "Duw, cariad yw,"—Bod daionus yr hwn sydd a'i drugaredd ar ei holl weithredoedd. Ceisiant genym i fod yn amyneddgar, yn ostyngedig, ac yn flyddlawn dan ddysgyblaeth bywyd, ond ni osodant o'n blaen y mwyaf cynhyrfiol o bob anogaeth, sef i fod Duw yn ei gariad yn gweithio allan er ein mwyn yr hyn sydd oreu er ein lles. Pa fodd mae yn bosibl i ddal i fyny yn y fuchedd Gristionogol trwy ystod hir fywyd heb ryw anogaeth wastad-gynhyrfiol, a chynhyddol yn ei gweithrediad? Dywedant wrthym fod yn angenrheidiol cael ffydd yn Nuw; ond pa fodd yr hollol-ymddiriedwn mewn Bod yn yr hwn y tybiwn fod llid, cenfigen, ac ymddial, yn briodoleddau gweithgar, a'r hwn a ofnwn y bydd iddo, ac na wyddom pwy mor gynted, eu harllwys ar ein pen? Anogant ni i'w garu Duw a'n holl galon ac a'n holl enaid; ond y mae ofn yn cymeryd y fath afael ar ein calonau fel ag i fod yn rhwystr ar ffordd cariad i ddod i mewn. Pa fodd y gallwn garu gyda pherffaith ymddiried a chyflawnder hyfrydwch a chydymdeimlad, Fod yr hwn a ddesgrifir fel yn dal yn ei law allwedd lle poenau trag'wyddol, i'r hwn y mae wedi

trosglwyddo, ac yn trosglwyddo, miloedd o'i elynion, ac uwch ben porth yr hwn le y mae yn ysgrifenedig, "Dim gobaith byth i'r sawl a êl i mewn yma."

Nid oes un peth wedi lluddias blaenfynediad a llwyddiant Cristionogaeth, ac wedi bod yn fwy effeithiol i dori teyrnwialen awdurdod a dylanwad Crist, yn fwy nac y mae gosodiad i fyny fath o dduwdod paganaidd, yn lle y Tad Nefol, wedi ei wneyd. Un o'r diwygiadau mwyaf sydd yn eisiau mewn duwinyddiaeth yw taflu allan o'r eglwys Gristionogol y gredo baganaidd, a gosod i fyny yn ei lle ffydd Iesu, yr hon a siriola enaid dyn. Os pwer, neu dyngedfen, neu deyrn, neu farnwr, yn unig yw Duw, pob peth o'r goreu; ond y mae ein hymarweddiad ninau yn sicr o gael ei effeithio, fwy neu lai, gan y fath olygiadau, ac nis byddir yn hir cyn adnabod ein cred wrth ei ffrwythau. Yn wir, nid yn anfynych y mae creulonder dyn at ddyn yn efelychiad o'r hyn a dybir yw dull Duw o ymddwyn at ei greaduriaid. Erledigaeth, penyd, y Chwil-lys, y grogpren, trawsarglwyddiaeth, pob cosp lym a chreulon, pob gweithred anghyfiawn ac ymddialeddol, a ddeilliant, nid yn anfynych, oddiwrth y syniadau paganaidd a briodolir i Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist—ffrwythau gwenwynllyd pren Upas ffydd arswydus.

Yn erbyn golygiadau tywyll o'r fath am Dduw, a'u heffaith greulon ar ei blant, yr ydym yn ysgrifenu yr ateb a'r gwrthdystiad Apostolaidd, "Duw, cariad yw." Dyma ddatguddiad Iesu, ac y mae yn dysgleirio ar y byd yn danbeidiach na goleuni yr haul, a chymylau paganiaeth yn unig sydd yn lluddias ei wres. Mae y naturiaethydd yn cymeryd y chwyddwydr *(microscope)*, ac yn syllu ar filiynau o fanfilol. Cenfydd fod eu gwneuthuriad oll yn hardd, ac y fath a'u haddasa i fwynhau pleser. Mae eu cymalau a'u peirianau bywydawl yn berffaith er distadled ydynt. Cyfeiria hefyd ei ysbienddrych i'r ffurfafen, a theithia ar hyd faesydd diderfyn yr eangder, gan dramwyo o fyd i fyd. Pob haul, pob planed, pob seren wibiog, ydynt yn cadarnhau yr un gwirioneedd am y Crewr Anfeidrol, sef mai cariad yw. Dyma fawlgan, dyma gydgor y greadigaeth—"Duw, cariad yw." Ei ewyllys, cariad yw; ei allu, cariad yw; ei ysbryd, cariad yw; ei weithredoedd, ei gyfreithiau, ei Efengyl, ei ffyrdd, cariad ydynt oll; a'i gariad ddanfonodd yr Iesu i achub pechaduriaid.

Nid oes dim sydd yn fwy angenrheidiol i fywyd crefyddol a dedwydd na pherffaith ymddiried yn nghariad Duw. Gweled, gwybod, teimlo mai cariad yw, nid cariad yn gyffredin, ond ei fod yn eich caru chwi, yn gofalu yn ei ragluniaeth am danoch, ac y bydd iddo yn y diwedd eich dwyn chwi ato ei hun mewn heddwch. Os oes profedigaethau llym fel tân, a chwerw fel angeu, rhan o'i ffyrdd ef ydynt i'n perffeithio ni yn ei gariad. Pob gloes, pob poen, ydynt nodau o'i gariad yn cael eu cynyg i'n sylw mewn rhyw ddull newydd. Mae pob tristwch torcalonus yn taflu i lawr ryw rwystr fel y gwelom y'mhellach, ac y profom ddedwyddwch purach a mwy digonol. "Gwyn eu byd y rhai ydynt yn galaru, canys hwy a ddiddenir." Hyd yn nod y rhai a amddifadir o'u meddiant anwylaf, ydynt o hyd yn cael fod ganddynt fendithion

yn weddill nas gall y byd byth ddwyn oddiarnynt—Duw a'u gobeithion yn Nghrist Iesu!

Mae dynion yn gyffredin yn arswydo rhag atheistiaeth. Dyweyd fod dyn yn atheist fyddai ei farcio â gwarthnod a berai iddo gael ei ochelyd gan ei gymydogion. Ond y mae mwy o atheistiaeth yn y byd nac y mae dynion yn feddwl. Gall dyn broffesu credu yn y Bod o Dduw a bod er hyny yn atheist. Math o atheistiaeth yw credu y gall y drwg gael yr oruchafiaeth ar y da, a thragwyddoli ei hun, oblegid mae yn dangos absenoldeb cred yn Nuw, neu o leiaf gred wan ac ammherffaith. Math o atheistiaeth yw credu i fod dyn yn fwy tueddol i ddrwg na da, ac y bydd i'r hil ddynol, gydag ychydig eithriadau, gael ei dedfrydu i boenau trag'wyddol yn y byd a ddaw, oblegid mae y fath gred yn amddifadu y ddau fyd o anfeidrol gariad, ac yn ei le yn gosod i fyny anfeidrol ddrwg, ac yn rhoddi y deyrnas, nid i'r Tad, ond i ryw fod dychymygol a elwir Satan. Absenoldeb ffydd yn hytrach na ffydd, yw llawer o'r hyn a eilw Cristionogion felly. Amheuaeth ac ofn ydyw wedi eu bedyddio ag enw sanctaidd, a'i alw yn gred a ffydd yn Nuw. Cariad Hollalluog ydyw Duw, ac nid iawn credu iddo erioed gael ei faeddu, neu y gall byth gael ei faeddu, yn ei ddybenion, p'un ai yn y byd hwn neu yn yr un a ddaw. I ba ddyben y defnyddiwn yr enw "Duw" os nad ydym yn meddu ar y meddwl a gyflwynir yn y gair? Mae yr enw "Duw" yn cynwys anfeidrol allu a daioni. A ydyw yr enw yn meddwl hyn i ni? Sylwa yr Apostol Ioan, "Yr hwn nid yw yn caru, nid adnabu Dduw," hyny yw, mae mewn ymarweddiad yn atheist, heb Dduw yn y byd. Mewn gwirionedd peth atheistaidd yw pob casineb yn y galon, pob drwg, pob pechod, cenfigen, ymddial. Maent mewn ystyr yn datgan, pe dygid eu hiaith i weithrediad, "Nid oes Duw." Ymddangosa y cyfryw sydd o dan eu dylanwad fel pe byddent yn gwadu mai goleuni yw Duw, ac nad oes ynddo ddim tywyllwch. Nid y peth ydym yn synied y'nghylch Duw sydd yn penderfynu pwy sydd yn credu ynddo, ond ein hymddygiad—pa fodd yr ydym yn ymfycheddu. Nid yw o nemawr les fy mod yn addoli fel eilun y gair a elwir "Duw," os nad wyf yn cael fy effeithio gan gariad, a harddwch, ac anfeidrol ddaioni y Bod Mawr ag wyf yn anerch, ac yn teimlo yn drwyadl mai cariad yw, a bod ei wasanaeth yn taflu allan o'm calon bob ofn, oblegid os cariad yw Duw, pwy achos i ni ofni unrhyw ddrwg. Y mae genym bob peth i obeithio am dano yn y byd hwn a'r un a ddaw. Yr unig ofn ddylai fod arnom yw ein bod yn rhy ddrwgdueddol a ffol i wneyd cam a chariad mor fawr, ac nad ydym mor ddiolchgar, ufudd, a theimladwy ag y dylem fod am fendith mor annirnadwy â'r sicrwydd sydd genym mai "Duw, cariad yw."

Cariad yw sylfaen y greadigaeth, a sylfaen pob bywyd. Crefydd, cariad at rinwedd yw; duwioldeb, cariad at Dduw ydyw; dynoliaeth, cariad at ddyn; gwladgarwch, cariad at ein gwlad. Mae y tybiau (*sentiments*) hyn yn y galon yn gynhyrfwyr, yn alluoedd anogaethol, yn ddyrchafwyr yr ymarweddiad. Pe gallech blanu ond un dyb bur, hael, frwdfrydus, yn enaid dyn ieuainc, mewn amser llosgai maes o'i natur bob bydoldeb ac ammhuredd. Yr ydym wedi cael ein creu i garu yn fawr, ac i gael ein caru yn fawr. Nid oes dim sydd yn eisiau ar eneid-

iau tlawd, egwan, torgalonus, yn fwy na'r sicrwydd fod Duw yn eu caru, ac i fod bywyd diderfyn o ddedwyddwch ar eu cyfer, ond iddynt droi eu gwynebau at Dduw a'r Iachawdwr. Pe gwnaech i ddyn deimlo ei fod yn cael ei garu, dysgai garu eraill. Yn hir rhaid i'r haul lewyrchu cyn toddi'r ia a'r eira, ond eu toddi wna yn y diwedd. Felly hefyd Haul y Cyfiawnder; mae wedi bod yn tywynu yn hir ar y ddaear. Er nad yw eto braidd yn wanwyn, er hyny, y mae ambell i flodeuyn yma a thraw yn dangos fod y gauaf wedi pasio. Mae ambell i galon bur a chariadlawn, ambell i gartref hynaws, ambell i eglwys ddifrifol, neu ysbytty daionus, yn datgan fod y byd yn dechreu teimlo ei wrês. Ond daw yr Haf gan bwyll, pryd y bydd y ddaear yn wyrdd a hardd o dan ei belydrau, a'r Hydref a ganlyn, pryd y dengys y ffrwythau a'r cynhauaf y gall y gwlaw a'r gwres alw allan o fonwes y ddaear, tywyll ac oer a chreigiog fel yr ymddengys, orwychder yr auraidd yd a gorfelusder y gwin-gynhauaf. Mae Dwyfol Gariad—gobeithion y gwanwyn a gwres yr haf—yn llewyrchu ar ein calonau. O, na fydded fyddo lewyrchu yn ofer! Ym mawr oleuni a chariad Duw, bydded i ni oll deimlo goleuni a chariad. Bydded i ni gredu y cariad sydd gan Dduw tuag atom, a rhodio yn deilwng o gariad, gofal, ac iechydwriaeth, Bod mor fawr ac mor dda!

AWGRYMIADAU BUDDIOL YN ENWEDIG I BREGETHWYR IEUAINC.

Cofiwch mai cenhadau ydych dros Grist i gymodi dynion a Duw.

Fel bugeiliaid da porthwch y praidd, nid er mwyn eich bywioliaeth, ond o awydd i wellhau cyflwr moesol a chrefyddol y byd

Nid trwy bregethau yn unig mae gwaredu dynion oddiwrth eu pechod, ond hefyd trwy esampl; am hyny, y'mhob addfwynder a chariad byddwch yn esampl i'ch cynulleidfa, a phan ddel y Meistr Mawr chwi a gewch goron y gogoniant.

Na chynygwch dra-arglwyddiaethu ar etifeddiaeth Duw. Golchodd Crist draed ei apostolion i ddysgu iddynt hwy ac i bawb gweinidogion Cristionogol wir ostyngeiddrwydd.

Os y daw ysbryd esgeuluso drosoch, darllenwch y 34ain o Ezeciel a'i chyfeiriadau, yr hon bennod sydd yn feddyginiaeth effeithiol rhag diofalwch a difaterwch gweinidogaethol. "Gwaed y drygionus a ofynaf ar dy law di, medd yr Arglwydd."

Cofiwch yn wastad mai prif ddyben y weinidogaeth Gristionogol yw arwain dynion at Grist, ac mai ysbrydolrwydd meddwl yw y prif addasrwydd at y gorchwyl.

Y gweinidog ag sydd "ddynfoddiwr," sydd hefyd yn "enaid-ddyn-istriwr."

Pan fyddoch yn pregethu, cofiwch fod Duw yn un o'ch gwrandawyr.

Bydded Iesu Grist oll yn oll genych, oblegid ei weinidog ef ydych. Efrydwch Grist; pregethwch Grist; byddwch fyw Crist, neu yn Saesneg, *live Crist*.

Na phregethwch bregeth byth heb gyfeirio eich meddwl at Dduw cyn a chwedi ei thraddodi, fel y byddo o fendith i'r gwrandawyr.

Dywedodd pregethwr doniol unwaith nad aeth erioed i'r pwlpid heb deimlo rhyw fath o ddychryn.

Gweddiwch dros eich pobl yn ddibaid. Dywed Melancthon am Luther, "Mi a'i cefais lawer gwaith mewn dagrau yn gweddio dros yr Eglwys."

Ymwelwch yn fynych â hwynt yn eu tai. Dangoswch eich bod yn cydymdeimlo a hwynt yn eu llawenydd a'u tristwch. Cynghorwch hwynt, ac os bydd eisiau cerydd, ceryddwch, ond yn fwynaidd ac yn ysbryd eich Meistr. Gochelwch, yn eich ymweliadau gweinidogaethol, rhag siarad ofer a diles. Bydded fod eich ymadrodd yn peri gras i'r gwrandawyr. Gwyliwch ar eich tafod.

Nac esgeuluswch eich ysgolion Sabbothol, ond ymwelwch â hwynt mor fynych ag y galloch, pe na chelech ond amser i rodio trwyddynt. Cofiwch mai yrŵyn yw gobaith y praidd.

"Edrychwch gan hyny arnoch eich hunain, ac ar yr holl braidd, ar yr hwn y gosododd yr Ysbryd Glan chwi yn olygwyr."—Actau xx. 18.

Yn nghyfansoddiad eich anerchion crefyddol myfyriwch i fod yn fyr a chynhwysfawr, oblegid oes y telegraph a'r llawfer ydyw hon.

Byddwch yn llym ac i'r pwrpas. Peidiwch byth a phregethu o amgylch eich testyn heb ei gyffwrdd. Dodwch eich gosodiadau yn eglur o flaen eich gwrandawyr, ond na aroswch yn hir i fanylu.

Na fydded eich sylwadau arweiniol byth yn faith, ond neidiwch ar unwaith i ganol y mater, fel nofiadwr i ganol y pwll. Hefyd gochelwch weddiau hirion. Cofiwch eich bod yn llefaru wrth Dduw. Nid oes dim sydd yn fwy niweidiol i ddefosiwn mewn cynulleidfa, na gweddiau hir-wyntog.

Dwyshewch eich mater. Byddwch sicr fod genych feddwl o werth i'w draddodi, yna llefarwch yn gymmwys allan mewn brawddegau mor fyred ag a fyddo yn gyson ag eglurdeb. Gochelwch ailadrodd yn rhy fynych.

Na fydded i chwi byth ddefnyddio geiriau uchel a mawreddog. Gadewch yr Hebraeg a'r Groeg yn llonydd tra fyddoch yn y pwlpid. Na fyddwch ddim yno ond pregethwr.

Disgwyliwch ar Dduw yn wastad am lwyddiant. Ei was ef ydych, ac ni ddylech ddyweyd na gwneyd dim heb ei awdurdod.

AWGRYMIADAU I'N HEGLWYSI.—Y FFORD IDDYNT LWYDDO.

Sicr ydym fod ein cynulleidfaoedd yn meddu ewyllys da pawb a berthynant iddynt, ac nid yn anfynych y dymuna ymwelwyr eu llwyddiant. Llawer gwaith y gwelsom wynebau llon mewn cynulleidfa luosog a ddangosent yn eglur i ni fod eu calonau yn dwym yn yr achos. Yr ydym yn meddwl y byddai y rheolau byr canlynol yn dra defnyddiol, pe gosodid hwynt mewn gweithrediad yn ein heglwysi. A fyddwch chwi cystal a rhoddi treial iddynt a dyweyd wrthym ryw bryd y fath effaith maent yn gael?

1. Na esgeuluswch eich cydgynulliad, ond deued pob aelod i'r cwrdd yn rheolaidd. Peidied neb ag absenoli ei hun heb ryw achos neillduol. Na fydded eich *seat* chwi byth yn wag, na phrydnawn na boreu. Os oes genych deulu, deuwch a hwynt hefyd gydach i'r cwrdd.

2. Danfonwch eich plant yn rheolaidd i'r Ysgol Sabbothol, ac ewch chwithau yno hefyd mor fynych ag y galloch, ac unwch oll a'r Bibl clas. Fel hyn y daw eich plant i ymhyfrydu yn y cysegr, ac fe dderbyniwch chwithau hefyd les i'ch eneidiau.

3. Bydded i bob traul perthynol i'r gynulleidfa gael ei thalu gyda phob parodrwydd ac ewyllysgarwch. Peidiwch er dim a bod yn gybyddlyd yn eich cyfraniadau at yr achos. Rhoddwch mor hael ag y galloch. Cofiwch eich bod yn rhoddi i Dduw, yr hwn a dal yn ol i chwi ar ei ganfed. Gochelwch yr ysbryd cybyddlyd yr hwn sydd yn gwywo pob achos. Na ddeled o fewn trothwy eich cysegr.

4. Gosodwch ddiwedd yn eich cynulleidfa ar wrthod swydd o herwydd nad yw neb yn foddlon rhoddi amser i'w chyflawni. Dylai swyddogion addas gael eu cadw y'mlaen hyd byth y gellir yn eu swyddi yn yr eglwys. Rhoddwch hefyd ryw waith i bob aelod.

5. Ymdreched pob aelod ymddwyn at yr aelodau eraill gyda'r tynerwch, yr ystyriaeth, a'r cyfeillgarwch mwyaf, ac i dreulio bywyd pur, anrhydeddus, a buddiol ger bron y byd. Gwneled pob aelod a allo yn wastad i feithrin cyfeillgarwch a chariad brawdol yn yr eglwys. Na esgeuluswch y tlodion, a gofelwch na ymlusgo oerfelgarwch a difaterwch i mewn, onite ni fydd fawr o amser cyn lladd eich eglwys, neu o leiaf cyn ei hamddifadu o bob bywyd ysbrydol. Peidiwch byth a diystyru eich Gweinidog, neu ddangos difaterwch tuag ato yn unrhyw fodd; ond safwch o'i ochr a rhoddwch iddo bob anogaeth i draethu argyhoeddiadau dyfnaf ei enaid—ei feddyliau dwysaf. Gofelwch yn hael am ei angenion tymhorol. Cadwch ei feddwl yn rhydd oddiwrth bethau y byd. Cofiwch mai eich gweinidog ydyw, yr hwn sydd yn cyfranu i chwi fara y bywyd. Cyfrenwch chwithau iddo yntau o'ch da tymhorol. Peidiwch meddwl fod yn ddigon i chwi dalu eich *subscription*, ac nad oes arnoch ragor o rwymau. P'un fwyaf cysurus y cadwoch eich gweinidog, mwyaf rhydd fydd ei feddwl yntau i dalu sylw priodol at ei swydd.

Gellid rhoddi rhagor o reolau, ond bydded i hyn gael eu gosod mewn ymarferiad yn ein cynulleidfaoedd. Mae yn llawn bryd dyweyd yn eglur, a galw yr eglwysi at eu dyledswydd. Mae digon o ysgrifenu a dadleu wedi bod yn ein henwad y'nghylch dyledswyddau ac addasrwydd gweinidogion. Os nad yw gweinidog yn addas i'w le, defnyddier y moddion mwyaf hynaws a thyner at gael cyfnewidiad; ond fynychaf yn y gynulleidfa mae'r golled. Mae eisiau arnynt gael pregethwr a dyna wrandawiad â'i dalentau ardderchog; ond dylent gofio mai talentau pregethwrol tra chyffredin sydd wedi planu yr eglwysi cryfaf. Cydweithrediad calonog a selog yr holl aelodau â'r gweinidog sydd yn gwneuthur eglwys yn llewyrchus a defnyddiol. Yn hytrach na ffeindio beiau ar y gweinidog, a gwneuthur dim eich hunain, bydded i bob brawd ac i bob chwaer—tlawd neu gyfoethog—wneuthur eu rhan tuag at adeiladu Sion. Oerfelgarwch, difaterwch, a chybydd-dra, sydd yn

lladd eglwys, a chyhyd ag y parhao eglwys yn y fath wael gyflwr, nid oes weinidog yn y byd all wneyd daioni iddi. Cydweithredwch a'ch gweinidog; rhoddwch eich holl enaid i'r gwaith; ac ni a atebwn i chwi am lwyddiant eich eglwys.

ADDEFIAD ANGHREDADYN Y'NGHYLCH Y BIBL.

Yr oedd achos unwaith gan foneddwr i drafaelu trwy ran dra amhoblog o'r Amerig, ac yr oedd ganddo, fel cydymdeithydd, ddyn deallus, hoff o ddadleu, ac o ran ei farn yn anghredadyn. Ceisiai hwn dreulio yr amser a difyru ei gyfaill trwy ddadleu yn erbyn y Bibl a'r grefydd Gristionogol. Nid oedd cymeriad da iawn i drigolion y parthau hyny o'r wlad, ac yr oedd son fod teithwyr yno wedi dyfod yn fynych i'w diwedd. Gan nad oedd tafarndai yn y wlad, gorfyddai ar y ddau deithiwr ymddiried eu hunain i lettygarwch y trigolion. Un diwrnod, a hi yn hwyrhau, ceisiasant am letty mewn ty-coed mewn lle tra unig, ac am nad oeddynt yn rhydd oddiwrth ofn, cytunasant i wylio ar yn ail trwy'r nos.

Pan ar fin myned i orphwys, aeth gwr y ty, golwg yr hwn oedd wedi hytrach achosi eu drwgdybiaeth, at ddalastell, tynodd i lawr Feibl, a chan hysbysu y dyeithriaid yr arferai addoliad teuluaidd, darllenodd a gweddiodd mewn modd mor syml fel ag i enill eu hymddiried. Aethant i'r gwely, a chysgasant yn ddiofn heb feddwl dim rhagor am wylied.

Yn y boreu, gofynodd y Cristion i'r Anffyddiwr a ddarfu ddim i'r addoliad y nos o'r blaen symud pob ofn a drwgdybiaeth oddiar ei feddwl fel ag i allu cysgu yn dawel? Yr oedd yn eglur y buasai yn well ganddo beidio ateb y cwestiwn, ond o'r diwedd addefodd yn onest i olwg ar y Bibl symud ar unwaith ei ddrwgdybiaeth am wr y ty, a thawelu ei feddwl gyda golwg ar un perygl y nos hono. Nis gallasai ddyweyd fod arno ofn dyn a arferai ddarllen ei Feibl a gweddio ar Dduw, fel y gwnaeth ein llettywr. Gwnaeth yr addoliad teuluaidd ef yn hollol ddiogel ei feddwl trwy'r nos. Pwy gan hyny all ddyweyd yn ddrwg am y Bibl? A phwy ond dynion anystyriol ac anwybodus allant fod yn Anghredinwyr?

Esboniadau.

Ezec. xviii. 4. *Wele yr holl eneidiau, eiddof fi ydynt; fel enaid y Tad, felly enaid y mab, eiddof fi ydynt. Yr enaid a becho, hwnw a fydd marw.*] Mae y gair *marw* yn yr Hen Destament a'r Newydd yn cael ei arferyd am gosp drwm, weithiau o bosibl yn y fuchedd hon, ond fynychaf yn y bywyd i ddod. "Pan bechodd Ephraim gyda Baal, y bu farw," Hosea xiii. 1, hyny yw, Efe a osododd ei hun mewn cyflwr cospedig. Gwel hefyd Ezec. iii. 18, &c., Jer. xxi. 30. Dywed yr Arglwydd wrth Adda yn Gen. ii. 17, os y torai ei orchymyn gyda golwg

ar y pren gwaharddedig, "Gan farw y byddi farw," hyny yw, Byddi yn sicr o gael dy gospi yn drwm. "Cyflog pechod yw marwolaeth," medd yr Apostol yn Rhuf. vi. 23, sef cosp drwm, yn fwyaf tebyg yn y bywyd nesaf. "Pan oeddem feirw mewn camweddau," Ephes. ii. 5, hyny yw, Pan oeddem mewn cyflwr cospedig. Mae yr Apostol yn chwanegu, "Efe a'n cydfywhaodd ni gyd â Christ. Trwy ras yr ydych yn gadwedig," hyny yw, Trwy gariad Duw yng Nghrist Iesu yr ydych wedi cael eich gwaredu o'r cyflwr marwol oeddych ynddo, i un o fywyd, sef o ddedwyddwch yn y bywyd hwn a'r hwn sydd i ddod. Yn llyfr y Datguddiad ii. 11 ; xx. 6, 14, gelwir y gosp hon *ail farwolaeth.* Y farwolaeth gyntaf yw'r un naturiol, a'r ail yw cospedigaeth yr annuwiol. Mae yn deilwng o sylw nad yw cosp yn sicr bob amser o oddiweddu y dyn annuwiol yn y byd hwn. Y mae cannoedd yn dianc. Am hyny, nid yw yr athrawiaeth o farwolaeth, fel cosp, yn y 18fed bennod o Ezeciel, a manau eraill, yn wir, ond ar y dyb o stad ddyfodol, oblegid fel y dywed Solomon (Preg. ix. 2), "Yr un peth a ddamwain i'r cyfiawn ac i'r annuwiol," ac y mae y fath ddysgyblaeth yn briodol yn y bywyd hwn. Am hyny, er nad yw llyfrau hynaf yr Hen Destament yn mynegu yn bendant am stad ddyfodol, yr ydym yn credu ei bod yn cael ei chymeryd yn ganiataol. Nid oes lle i amheu nad oedd yn bwnc ffydd yr Israeliaid yn amser Ezeciel, a phob amser. Yr oedd yn adnabyddus i Daniel (xii. 2, 3), yr hwn oedd yn byw oddeutu yr amser yma, ac i'r holl genedl yn amser Maccabeaid (2 Esdras ii. 23, 2 Mac. vii. 14, xii. 43), ac yn cael effaith y pryd hwnw ar ymddygiad dynion—llawer yn dioddef penyd ac angeu mewn gobaith o adgyfodiad i fywyd trag'wyddol. Pan ymddangosodd Crist yr oedd yr athrawiaeth bwysfawr hon, sef stad ddyfodol, a chosp yr annuwiol, yn eithaf adnabyddus i'r Iuddewon. Rhoddi nerth adnewyddol iddi wnaeth adgyfodiad yr Iesu, trwy ychwanegu at ei sicrwydd a rhoddi anogaethau i ddynion—cryfach anogaethau nac a feddai y byd o'r blaen—i lafurio am dani. Y gosp drymaf a weinyddir yw marwolaeth, am hyny y defnyddir y gair yn yr Ysgrythyrau i ddynodi y gosp sydd ar gyfer yr annuwiol. O ganlyniad, ymswyned pawb rhag pechod, oblegid mae yn sicr o gael ei gospi. Rhaid i bob dyn hefyd ddioddef am ei bechod ei hun, ac nid arall yn ei le. "Yr enaid a becho, hwnnw fydd marw."

Luc xv. 11—32, *sef dammeg y Mab afradlon, mewn atebiad i ofyniad Athraw Ysgol Sul, tud.* 187.] Yr achos berodd i'r Iesu draddodi y tair dammeg yn y bennod hon oedd y cyhuddiad wnaeth y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion yn ei erbyn, sef ei fod "yn derbyn pechaduriaid ac yn bwyta gyda hwynt." Mae yr Iesu o hono yntau yn amddiffyn ei hun trwy dradd'u fod yn y nefoedd fwy o orfoledd am ddychweliad pechaduriaid nac y sydd am ddychweliad dynion cyfiawn y rhai ni safant mewn eisiau o edifeirwch, yn gymmwys fel y mae dynion yn llawenhau mwy pan y caffont afael mewn rhyw wrthrych oeddynt wedi golli, nac am y cyfan ag oedd yn eu meddiant. Dyma ymddengys i ni yw prif ddyben y ddammeg tan sylw, fel y ddwy o'i blaen. Ei ddyben yw cyfiawnhau ei ymddygiad yn cyfeillachu a dynion pechadurus o fath y publicanod, y rhai oeddynt yn sefyll mewn mwy o'i eisiau na dynion crefyddol a chyfiawn fel y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion, o

leiaf yn eu tyb eu hunain. Ar y claf mae eisiau meddyg, ac nid ar y iach. At ddefaid cyfrgolledig ty Israel yr oedd ei genadwri ef; nid oes dim eisiau myned ar ol y sawl nid ydynt byth yn crwydro o gartref. Yn hyn mae'r Iesu yn siampl neillduol i weinidogion yr Efengyl, prif ddyben y rhai ddylai ceisio diwygio y meddwon, y tyngwyr, y godinebwyr, y celwyddwyr, y lladron, y cribddeilwyr, y cybyddion, y rhai ydynt i'w cael y'mhob gwlad. Dyma'r cleifion; dyma'r sawl sydd yn sefyll mewn eisiau meddyg, ac am droedigaeth y rhai y bydd mwy o lawenydd yn y nef, nac am y sawl sydd yn wastad yn treulio bywyd rhinweddol. Nid dyben dyfodiad Crist oedd dysgu i ddynion ryw gryg o athrawiaeth diles a disynwyr, ond i ddiwygio'r byd trwy arwain dynion i gasau pechod, i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon. Wrth y mab iengaf yr ydym yn deall y publicanod a'r pechaduriaid, a'r Phariseaid a'r Ysgrifenyddion wrth y brawd hynaf, y rhai oeddynt, fel y tybient, yn byw yn wastad gartref gyda'r tad, ac yn ufudd i'w ewyllys. Dylai y darllenydd ddeall fod llawer o bethau mewn dammeg ag sydd yn amgylchiadol—yn cael eu dyweyd er mwyn addurn, ac er mwyn cymhwyso y ddammeg at y gyffelybiaeth. Felly yn y ddammeg tan sylw, mae y cibau, y llo pasgedig, y fodrwy, yr esgidiau, y gynghanedd a'r dawnsio, a'r tad yn myned allan i gyfarfod yr afradlon. Addurniadau yw y rhai hyn, ac ni ddylid gosod pwys arnynt yn neongliad y ddammeg. Maent yn cael eu defnyddio er mwyn harddwch, a gosod y gydmariaeth allan yn naturiol. Cofied y darllenydd mai prif ddyben y Dysgawdwr Mawr, fel y sylwasom yn barod, yw cyfiawnhau ei ymddygiad yn ei waith yn cyfeillachu a chymeriadau isel o fath y publicanod. Ar y fath yr oedd angen edifeirwch, ac am eu troedigaeth hwy yr oedd llawenydd yn y Nef. Nid oes ond un sylw ychwanegol a ddymunwn wneyd, sef y gellir casglu oddiwrth barodrwydd y tad i faddeu i'w blentyn ffol a drygionus ar ei edifeirwch a'i ddychweliad adref, fod Duw yn maddeu yn rhad i'r pechadur, ac mai anysgrythyrol a gwrthun yw'r athrawiaeth boblogaidd o iawn i gyfiawnder neu i'w gyfraith cyn y gallo faddeu i'r edifeiriol, ac i Grist ar y groes wneyd y fath iawn. Mae'r gair *iawn* yn yr Ysgrythyr, mae yn wir, ond mewn ystyr llawer gwahanol i "iawn i gyfiawnder" fel y cawn ddangos cyn bo hir.

Matt. v. 1. *A phan welodd yr Iesu y torfeydd, efe a esgynodd i'r mynydd.*] Yn yr oesoedd cyntefig nid oedd gan ddynion demlau na delwau i'w duwiau; ond addolent maes yn yr awyr agored, â'u wynebau tua'r nefoedd. Gan y Persiaid nid oedd temlau hyd yn nod mewn oesoedd diweddarach, pan oedd temlau yn gyffredin mewn gwledydd eraill, o herwydd tybient nad oedd gan y duwiau ffurf gorphorol fel sydd gan ddynion, am hyny nad oedd arnynt eisiau temlau. Peth gwrthun, yn ol eu barn hwy, oedd cyfyngu duwiau rhwng gwelydd, ty a theml y rhai yw y bydysawd. Addolai y Groegiaid a chenhedloedd eraill eu duwiau ar benau mynyddoedd, am hyny mae Iau yn cymeradwyo Hector am yr amryw aberthau oedd wedi offrymu ar ben mynydd Ida [Iliad xxii. 170.] Yr oedd hen Frytaniaid yn y wlad hon yn addoli ar

lefydd uchel.* Ar benau mynyddoedd yr aberthai y cenhedloedd oddeutu Judea. Cymerodd Balaac, brenin Moab, Balaam i ben mynydd—uchelfeydd Baal—i felldithio Israel [Numeri xxiii. 1]. I ben mynydd y gorchymynodd Duw i Abraham fyned i offrymu ei fab [Gen. xxii. 2]. Ar lefydd uchel yr adeiledid temlau mewn oesoedd diweddarach. Ar y manau uwchaf yn Athen a Rhufain y safai y temlau mwyaf cysegredig. Yr achos y dewisid addoli ar lefydd uchel, yn ddigon tebyg, oedd y dybiaeth gyffredin eu bod yn nesach at y nefoedd, trigfan y duwiau. Ond yn sicr nid gydag un bwriad i gymeradwyo coelgrefydd y cenhedloedd y dewisodd yr Iesu draddodi un o'i anerchion cyntaf ar fynydd. Y rheswm yn ddigon tebyg oedd fod mynydd yn fwy cymmwys man na gwastadedd i anerch y torfeydd oedd yn ei ganlyn y pryd hwn.

Rhoddi Gofyniadau i'r Pregethwr.—Pe y gwyddem na roddem dramgwydd, ni a gymerem ein cenad i sylwi nad ydym wedi deall "J. D." yn hanes y Cwrdd blynyddol pan yn dyweyd, "Ni alarem i weled yr arferiad o roddi gofyniadau i'r pregethwr yn cael ei adael o'r neilldu, am nad yw, yn ein tyb ni, yn tueddu i adeiladu yn fuddiol." Ai meddwl y mae na alarai i weled y cwstwm o roddi cynyg i'r gwrandawyr i ofyn cwestiwn i'r pregethwr er mwyn cael rhagor o eglurhad ar ryw beth a ddywedodd yn ei bregeth, yn cael ei osod o'r neilldu, neu ynte na alarai pe na chymerid mantais o'r cynyg i wneyd hyny. Os y cyntaf feddylia, ni a gytunwn ag ef mai gwell yw gadael y cwstwm heibio os na all y pregethwr oddef ei gwestiyno heb fyned i dymer frwd, onite yr ydym yn credu fod y cwstwm yn un da. Pe fyddem ni, y pregethwyr, yn cael ein galw i gyfrif yn fwy mynych am haeriadau a wnawn weithiau, byddai yn dda i ni ac ar les y gwirionedd. Byddem dipyn yn fwy gochelgar a phwyllog yn ein gosodiadau, ac nid yw y goreu o honom heb eu diffygion. Yr ydym ni, fel un, dros gadw i fyny y cwstwm. Mae yn hen gwstwm yn ein plith, wedi d'od i lawr i ni oddiwrth ein teidiau Undodaidd, y rhai a ddioddefasant lawer o bwys gwres y dydd. Ond os yr ail beth feddylia "J. D.," sef na alarai pe na chymerid mantais o'r cynyg, ac i bob un i fod yn ddystaw. Yr ydym yn addef mai gwell fyddai peidio rhoddi y cynyg o gwbl, os mwy defnyddiol fyddai peidio ei ddefnyddio, oblegid felly ni fyddai ond *sham.* Cyhyd ag y parhao y cynyg i gael ei roddi, yr ydym ni yn dewis bod at ein rhyddid i'w ddefnyddio ai peidio, fel y gwelom oreu ar y pryd; ac os y dygwydd i ni ryw bryd fod "y pregethwr," peidied neb arbed ein pregeth, yn enwedig os y meddylier ein bod wedi dyweyd rhyw beth disail, ac ni ymdrechwn gadw mewn tymer briodol. Yn wir, ni ddylai fod genym ni, yr Undodiaid, un gwrthwynebiad i ddadl, unrhyw amser pan fyddo ei heisiau. Yr ydym ni, fel un, yn ddyledus iawn i

---

* Ond nid ydym yn credu gyda rhai dysgedigion fod *Llan*, eglwys, yn dal cysylltiad a'r gair *glan*, megys *i'r lan.* Gair gwahanol yw llan, yn meddwl yr un peth ag *enclosure* yn Saesneg, megys, *ydlan, perllan, corlan, corfflan.*

ddadleuon am y golygiadau sydd genym. Nid anghofiwn byth y budd a'r pleser a gawsom pan yn ieuainc o ddarllen dadleuon Athronydd Birmingham, a'r cewri â pha rai y torodd waewffyn. Nid arwydd dda ein bod ni, yr Undodiaid, yn groes i ddadl, p'un ai ar ol pregeth neu unrhyw amser arall. Mae dadl yn cynhyrfu'r dwfr, yr hwn o'i adael yn hir yn llonydd, a sawra. Pan fyddo dynion yn pendrymu dan y gair, mae dadl yn rhoddi bywyd newydd ynddynt, ac yn peri i lawer feddwl a chwilio yn ol llaw. A Christionogaeth—dadleu mae hi wedi wneyd erioed. Mewn dadleu y cafodd ei dechreuad. Yr oedd Crist yn dadleu yn wastad a'r Iuddewon. Nid oedd ddiwrnod braidd yn myned dros ben yr Apostol Paul nad oedd yn gorfod dadleu—dadleu yn y Synagog, dadleu yn y deml, dadleu yn yr Areopagus, dadleu yn yr eglwys, dadleu yn ei lythyron. Trwy ddadleu y dymchwelodd Cenhadon Crist eilunaddoliaeth yn Ewrop, ac y bwriasant gestyll annuwioldeb i'r llawr. Pob diwygiwr ar a wyddom am dano—yr oedd yn gorfod dadleu—Luther, Servetus, Melancthon, y ddau Socini, Calvin, John Knox, Priestley. Pallai amser i ni enwi hen weinidogion yr Undodiaid yn Neheubarth Cymru, i lafur y rhai yr ydym ni wedi myned i mewn. Tra fyddo camsyniadau yn y byd, mae yn rhaid dadleu. Beiddiwn ddyweyd na fu Undodiaeth yn gryfach erioed, nac yn fwy bywiog, na phan oedd eu hamddiffynwyr yn cadw eu harfau yn loew yn eu ymgyrchion âg ymosodiadau gwrthwynebwyr, a barnu ydym fod cymmaint o eisiau eu cadw yn loew yn awr ag oedd dri-ugain mlynedd yn ol, pan oedd Trindodiaeth â'i gyrdd mawrion ar ei gwar. Mae Trindodiaeth yn awr yn wir yn ddigon llonydd—yn llawer rhy lonydd. Os y rhodda i'n ambell i ergyd ar y *sly*, dyna i gyd, o leiaf yn Neheubarth Cymru. Ond camsynied ydym arwyddion yr amserau, os ydyw milwriaeth Undodiaeth Gristionogol eto drosodd, onid ydym yn barod i gyfaddaw gwiredd hanes Crist yn y pedair Efengyl, yr hyn nid yw yn debyg. Peidied neb ofni dadl. Tra fyddo Undodiaeth yn dadleu mae hi o ddefnydd i'r byd, a dim yn hwy. Os ydym yn gwahaniaethu yn ein syniad ar y pen hwn oddiwrth "J. D.," gobeithio yr esgusoda ni, ac y mae'r YMOFYNYDD yr un mor agored iddo ef a phawb eraill, ag yw i ninau.

CRI CARCHAROR DAN FARN MARWOLAETH.

Trom y galon, tra mae gwelydd
Mawr yn rhanu rhwng carenydd,
Tad a mam, a phlant a phriod,
Brawd a chwaer, a phob cydnabod;
Yn dihoeni wrth ei hunan,
Mewn oer gilfach, neu gul ibach, yn gwael wban;
Heb ddim goleu, tân na gwely,
Na dim moddion, na da ddynion i'w diddanu.

Trom y galon, tra mae 'n gweled
Cwmp'ni atgas, diras, diriaid,
A'u drwg gilwg gyda 'u gilydd,
Yn dirboeni rhyw rai beunydd;

Rhai digasog, ffyrnig, creulon,
Fel yn Uffern, yma yw'r Gethern roir yn gaethion;
Mewn gwedd ac anian, iaith a gweithred,
Yn rhai salw, â'r un ddelw a charn o ddiawliaid.

Trom ein calon, tra mae 'n clywed
'Sgrech y ddôr yn gwichio 'n ddiriaid;
Trist yw clywed trwst y cloion
Yn cloi drysau'r muriau mawrion;
Dadwrdd lingciau hei'rn yn tingcio,
Ydyw'r clychau, a'r llais main tenau sy' yma'n tiwnio.
Griddfan, cwyn, ac oer och'neidiau
Fyth breswylia 'n holl anniddan hyll anneddau.

Trom y galon, tra mae golau
I rai 'nabod ein hwynebau;
Waith llu sy 'n cyrchu i mewn i'r carchar
Bob dydd o ranau pell y ddaear;
Er cael, mewn cyffes, hanes hynod,
Faint, yn ffiaidd yn ein buchedd, wnaem o bechod:
Pan addefom, llawer adyn
Sy', 'n lle tosturio, yn ein gwawdio 'n union gwedi'n.

Trom y galar, tra mae gwylwyr
Dewr yn cadw 'r pyrth yn gywir;
Maith fesurau'r muriau mawrion,
Wnai 'r gwr a'i gwelo 'n oer ei galon;
Er eu trengu, rhaid cyn tringon'
Y fath uchder, gael rhyw 'sgeler hir ysgolion;
Ac ammhosibl fyth i gaeth-ddyn,
Gwthied fynno, allu treiddio tyllau trwyddyn'.

Trom y galar, tra mae'r gwely
Yn wlyb o danaf, heb ei dànu;
Ar dwssw o wellt, heb un dilledyn
Rhwng fy mòl i a'r pridd melyn:
Gyda'r hwyr, mewn cell annifir
Dan gadwynau, a mawrion didau hei'rn y'm dodir;
Heb neb trwy'r nos o fewn i'r cyntedd,
Rhag fy marw, yma o'u galw, a ry ymgeledd.

Dyma driniaeth wael, druenus,
I un a ga's ei fagu 'n foethus;
Yr wyf yn agos i wallgofi
Wrth wel'd y newid byd ddaeth immi:
Mynai fy rhieni mwynaf
Ro'i bob amser wely tyner, diwael, tanaf,
A'r man yr awn i mewn rhyw anhwyl,
Cawn le cynnes immi ym mynwes fy mam anwyl.

Gan wasgfa gofid, yn lle cysgu,
Tynnu 'ngwallt yr wyf a gwylltu;
Mynych dreiglo, a thywallt dagrau,
Wrth wel'd y lle a wnes i 'nghartre';
Yno rhwyfo dwylo a berrau,
I gael torri, ac i dynnu'm hoer gadwynau;
Ond yn ol gwingo'm traed i'w herbyn,
A bod yn llonydd, mewn egwydydd ma'nhwy gwedi'n.

Cof am oriau, dyddiau diddan,
A borau mebyd, bair im' wban;
Yn y Gwanwyn, blodau gwynion
A ddarparent rawn-win purion;

Ond pan gododd gwynt ac oerfel,
Y dail a'r blodau i gyd a wywai gyda'r awel;
Ac yn groes i'r hen obeithion,
'Nawr y dygant, er mawr sorriant, rawn-win surion.

Trom yw calon wirion, waraidd
Pawb o'm ceraint mwyn, caruaidd,
Sy' gan g'wilydd llym a galar,
Bron a ffaelu rhodio'r ddaear;
Darfu 'n làn o fewn eu hannedd
Am bob diddig gân a miwsig, gwên a maswedd;
Mewn oer henaint, mae 'n rhieni
Yn cyd-wylo, 'nawr dan gwyno erioed ein geni.

Chwi dadau mwynion, os dymunwch
Y doniau gorau i'r plant a gerwch,
Er y byd, O! nag arbedwch
Eu ceryddu mewn carciddiwch!
Distrywyd llawer trwy dosturi;
Eich plant na yrrwch, trwy'ch tirionwch, i'r trueni!
Achub llawer llanc anhywaith,
Gwyllt, penhoeden, y mae'r wialen, rhag marwolaeth.

Dysgwch ddeddfau'r Arglwydd iddynt,
Ymbiliwch arnynt, gweddiwch drostynt:
Arferwch i ryw waith yn forau;
Gwyliwch rhag rhoi gormod gwyliau:
Swydd o'i dilyn wella'r iechyd,
Sobra ffyliaid, ac a'u gwared rhag seguryd;
Deddfau glân, ac ofn yr Arglwydd
Yn yr enaid fyth a'u gwared rhag pob gw'radwydd.

Blentyn ynfyd cais drugaredd,
I'th rieni rho anrhydedd;
Tra f'ech blentyn dilyn d' alwad,
Ac adnebydd ddydd d' ymweliad;
Oni throi wrth lais d' athrawon
I gael perffaith iechydwriaeth, eurwych, dirion,
F' allai gwelir dithau'n bruddaidd,
Mewn carchar-dy, yn 'difaru am d' oferedd.

Ofer ydyw i un fwriadu,
Yn ei galon, fyth i gelu
Cymmaint oll a wnel o gamwedd,
A ffoi rhag teimlo dwylo dialedd:
Ym mhen amser daw yr hen ddrygau
Wnaed mewn t'wyllwch a dirgelwch, oll i'r golau;
Wedi rowndio'r byd i'r India,
Bydd cosp, er rofyn, o hir ddilyn, yn siwr o ddala.

Nid yw'r Ustus mawr a'r tystion,
Nid yw'r gwyr â'r gynau duon,
Nid yw'r sirydd llym ei soriant,
Nid yw'r arfog wyr a'u gwyliant,
Ond rhyw nodau dychrynadwy,
A chysgodau o ofidiau mwy ofnadwy
'R sessiwn olaf, pan fydd Iesu,
Mewn mawrhydi, ac heb wyrnu, yn ein barnu.

Y mae'r baich trwm, mawr o bechod,
Ar fy soddi i lawr i'r gwaelod;
Daw'n gweithredoedd erchyll duon,
Yn y t'wyllwch fel ellyllon,
Dros y gaer a thrwy'r parwydydd,
O flaen fy llygaid, oll i'w gweled, o'r hylla i'w gilydd;

A'r Sarph, Cydwybod, rhwng fy nwyfron,
Saetha wenwyn ei du golyn hyd y galon.

Os hapia ryw bryd im' gael hepian,
Ni phery'r hun ond ennyd fechan,
Rhyw freuddwydion hyll arswydus,
A wna 'nghwsg i'n flin brawychus;
Rhedeg weithiau 'r ydwy' 'ngwaetha'
Drwy goed a chreigydd, rhag fy nialydd sy' ar fy nala;
Myn'd rhwng miloedd yn rhwym eilwaith,
Tan lesmeirio, a mawr wylo, i'm marwolaeth!

Trom yw'r galon tra mae golwg
Ar y gelyn garwa'i gilwg;
Yr angau dewr, â'i lifrau duon,
Wna'r dewra a'i gwelo dorri ei galon;
Nid all un câr, na chyfaill mwynaidd
Gynnorthwyo pan y delo poenau a dialedd;
I b'le trown pan codo 'storom,
Ac erchylldod y diwrnod mawr du arnom!

Os oes cyfaill fo'n ein cofio
Yn deisyfu gwel'd ein safio,
Y rhai nesaf o'n perth'nasau,
Hyd 'nod brodyr ofnan' 'n bradau;
Rhoddi tostur farn marwolaeth,
Ar lofruddion mawr, a lladron, mae'r liywodraeth,
Er diogelu i ddeiliaid ffyddlon,
Eu bywydau a'u meddiannau, mewn modd union.

Ofer dysgwyl help o'r bryniau,
Nag o liaws y mynyddau;
Ni rydd Sior, sy' fawr ei soriant,
Un addewid o faddeuant;
Y mae'r gyfraith gaeth yn bwrw
'R adyn lledffol, edifeiriol, fyn'd i farw;
Er dwys wban, nid oes obaith
Cael gan hono, gwedi ei digio, gadwedigaeth.

Arglwydd, graslon, tirion, tyred
O'm gerwin gyflwr yma i'm gwared;
Tor y rhwymau, y c'lymmau, a'r cloion
Sy'n dyn gul am dan y galon;
Er bod dynion, am ei bechod
Mawr, anafus, a du warthus, wedi' wrthod;
Dyro i'r gwaela erioed d' ymgeledd,
I gael gweled dôr agored i'th drugaredd.

Mae hanesion i Manasse
O ryw fan fel lle 'r wyf finau,
Er ei gamwedd, gael dy gymmod,
A'i ryddhau o'r baich o bechod;
Fy mhechod galw mae am ddialedd,
Ond yr Iesu sy'n eirioli am drugaredd;
Gwrando, O Dad! ar ei eiriolaeth,
Pan b'wy'i'n marw, a mawr elw fydd marwolaeth.

"*Telyn Dewi.*"

ACH RYFEDDOL Y FORWYN FAIR.

Mr. Golygydd,

Os y tybiwch y bydd y ddau benill canlynol o ryw fudd i'ch darllenwyr, maent at eich gwasanaeth. Cymerais hwynt allan o

rifynau Gorphenaf ac Awst o'r *Cyfaill Eglwysig* tan olygiaeth y Parch. W. Evans, Rhymney :—

"A fydd rhai o ddarllenwyr y *Cyfaill* mor garedig a dywedyd wrthym pwy ydyw y personau mae y bardd yn ei feddwl wrth y penill canlynol" :—

> "Awn i wel'd y ferch yn fam,
> A'r fam yn ferch, ddinwyf, ddinam,
> Y ferch yn magu 'i Thad o'i rwymyn,
> A'r Tad yn sugno bronau plentyn."

A ganlyn yw'r ateb :—

> "Y forwyn Fair, yr wyf yn credu,
> Ydoedd Mam yr Arglwydd Iesu,
> Ac y mae E'n Dad Tragwyddol
> Os deallwyf y gair dwyfol."

Darllenais, Mr. Golygydd, lawer o ffregod duwinyddawl yn fy nydd, ond dim erioed yn maeddu hyn. Fel y dywed y Sais, *It is indeed rich.* Meddwl wyf fi mai *wag* oedd y bardd a gyfansoddodd y penill cyntaf er mwyn dangos gwrthuni y drindod. Yn ol yr athrawiaeth hono mae yn eithaf priodol dyweyd i'r fam eni ei thad, ac i fod y tad yn sugno bronau ei blentyn pan yn faban ar ei gliniau. Gallasai y prydydd hefyd 'chwanegu fod y mab nid yn unig yn dad i'w fam, ond hefyd yn wr iddi. Mewn geiriau eraill, gellir dyweyd, yn ol yr athrawiaeth ryfeddol hon, fod plentyn y baban yn dal y baban ar ei gliniau, yr hwn blentyn oedd yn fam ac yn wraig i'r baban, a'r baban, o hono yntau, yn fab, yn dad, ac wr i'w blentyn, oblegid, yn ol credo Athanasius, mae yr Ysbryd Glân yn dduw, ac yn un a'r Tad a'r Mab. Mae genyf ddiolch i Olygydd y *Cyfaill Eglwysig* am gyhoeddi y penillion uchod, oblegid nis gall dim fod yn fwy pwrpasol i ddinoethi gwrthuni athrawiaeth y Drindod. Dymunaf lwyddiant i chwi eich dau—un yn fwriadol a'r llall yn anfwriadol—i ddwyn y byd yn ol at athrawiaeth y Bibl, sef Undod diranawl y Duwdod. D. J.

DYLAI Y CORPH GAEL EI GADW YN LAN.

Mae croen dyn ac anifail yn gynwysedig o dair hân. Sylwedd tew a chellawg yw cyfansoddiad yr hân isaf. Y nesaf arni yw y *corium*, neu y croen a elwir yn briodol felly, ac yn cael ei gyfansoddi o fân-edafedd *(fibres)* wedi eu gwau yn dyn trwy eu gilydd. Mae yn cael ei drywanu hefyd a myrddiynau o fan wythienau a *nerves*. Yr hân uwchaf, neu nesaf i maes, yw yr hyn a elwir y *cuticle* neu yr amgroen. Gorchudd allanol yw hwn dros y cyfan. Ei ddyben yw gorchuddio ac amddiffyn blaenon y *nerves*. Mae y tair hân yn cael eu trywanu ag aneirif o fan bibellau ar ddull *screw* a elwir *pores*. Mae pob un yn gysylltiedig yn y bon â chilwrnen, yn Saesneg *gland*, fechan. Mae'r *glands* o honynt hwythau mewn cyssylltiad agos â'r man wythienau. Dyben y pibellau hyn yw cludo allan o'r gwaed bob *waste*, yr hwn, pe na theflid allan, fyddai yn niweidiol i'r cyfansoddiad. Nid ydyw'r *pores* yn amlwg i'r llygad noeth, ond yn eithaf amlwg trwy chwyddwydr. Gall y darllenydd ffurfio rhyw feddwl am eu bychandra, pan ddywedwn fod oddeutu tair mil o honynt mewn pob modfedd sewar o'r croen! Nid oes

dim yn rhy fach nac yn rhy fawr i Anfeidrol Allu a Doethineb! Nid enw Cymraeg ammhriodol ar y *pores* fyddai chwysdyllau.

Nid oes un amser nad yw chwys yn suddo allan trwy y *pores*, a hyny mewn cyflwr o *anwedd*. Er prawf o hyn, gosodwch flaen eich bys ar ddrychwydr, a chwi a'i canfyddwch yn myned yn wlyb a niwlog yr olwg arno. Yr achos yw y tarth sydd yn tramwy trwy y *pores* y'mlaen y bys. Pe daliech y drychwydr wrth unrhyw ran arall o'r corph, caech weled yr un fath effaith. Mae corph pob creadur ar dir sych yn cael ei amgylchynu â tharth, er nad yw yn weledig i'r llygad noeth.

Pan wedi twymo ar ol cerdded, neu weithio yn galed, yn enwedig ar dywydd brwd, mae'r tarth yn tramwy trwy'r *pores* mor fuan fel ag i ffurfio dafnau o wlybwr ar y croen, a elwir chwys. I'r graddau y byddo y gwaed yn poethi mae'r *pores* yn helaethu ac yn gollwng allan y tarth yn fwy rhwydd. O'r gwaed mae'r tarth yn dyfod, oblegid mae 76 o bob 100 o'r gwaed yn ddw'r. Y canlyniad yw, pan fyddo dyn, neu unrhyw greadur arall yn gweithio yn galed, yn enwedig os bydd y tywydd yn frwd, ei fod yn teimlo mwy o syched nac arferol. Paham? Am fod y gwaed yn gofyn dw'r yn lle y dw'r mae yn daflu allan trwy chwys, i gadw i fyny y cyfartaledd.

Pan fyddo corph wedi poethi yn fawr, mae perygl iddo gymeryd anwyd—mwy o berygl nac arferol o herwydd cyflwr tra-agored a brwd y chwysbibellau. Mae oerni sydyn yn y fath gyflwr yn peri iddynt dynu y'nghyd (*contract*), os nid i gauad yn hollol, o ganlyniad nis gallant gyflawnu eu swydd, sef daflu allan y *waste* o'r gwaed, yr hwn, er hyny, sydd yn rhwym o gael ei daflu allan. Nid oes un ffordd arall ond trwy yr arenau a'r bledren, sef y peirianau trwythog, neu yn Saesneg, *the urinary organs*. Y canlyniad yw fod y peirianau hyn mewn anwyd yn gorfod gwneuthur dau waith—eu gwaith eu hunain, sef dysdyllio y lleisw, neu'r *urine*, o'r gwaed, a gwaith y *pores* y rhai ydynt wedi cau. Mae y cyfansoddiad oll yn y fath gyflwr yn anhwylus—mae, fel y dywedir, mewn gwaith anwyd—yn enwedig y bilionen lysnafeddog, neu y *mucous membrane*. Wrth hon mae i ehwi ddeall arwynebedd mewnol y corph—arwynebedd mewnol ffordd y bwyd a'r anadl. Pan fyddoch mewn gwaith anwyd, mae'r ammhuredd a ddylasai dramwy trwy y *pores* i'w weled ar waelod y llestr.

Clywsoch lawer un yn dyweyd, "Nid oes arna i ddim eisiau dod at y tan; yr wy' i 'n eitha' brwd—wedi chwysu." Dyna'r pryd y dylai dyn ddynesu at y tan, oblegid chwi welwch oddiwrth yr hyn a ddywedwyd mai dyna'r pryd mae dyn yn fwyaf agored i gael anwyd. Nid ychydig o fyfyrwyr duwinyddol ieuainc sydd wedi dyfod i'w diwedd o herwydd cerdded yn galed nes chwysu, ac efallai yn y gwlaw, a myned yn union yn eu chwys a'u gwlybanrwydd i'r pwlpid. Os bydd eu cyfansoddiad yn tueddi i ddarfodedigaeth, digon tebyg y diwedda'r anwyd mewn oddfynod ar yr ysgyfaint, a'r canlyniad yw *consumption* a'r bedd! Mae yn naturiol i rai dynion, na wyddant ddim am y peth, i briodoli y diwedd galarus i ormod o waith yn yr athrofa. Ni fu myfyriwr erioed farw o'r *consumption* o herwydd gweithio yn galed i ddysgu. Yr achosion fynychaf yw newidiad sydyn dull ei fywyd, neu ynte anwyd mewn chwys a dillad gwlybion, neu ynte duedd naturiol y cyfansoddiad i'r darfodedigaeth—fflangell ein gwlad.

Eto, mae y tarth a deflir allan o'r gwaed trwy y *pores* yn cynwys, nid dwfr yn unig, ond hefyd *carbonic acid* yn gymysg â sylwedd seimlyd. Oni bai fod natur wedi trefnu ffyrdd i'r pethau hyn gael eu taflu allan o'r gwaed, ni allai un creadur fyw. Dwy ffordd y sy gan y corph i wrthod *carbonic acid*, neu i'w daflu allan yn ol y gwnelo ei waith yn y cyfansoddiad, sef trwy yr ysgyfaint a'r croen. Mae peth o hono, yn sicr, yn cael ei daflu i maes trwy y peirianau trwythog, sef yr arenau a'r bledren, ond nid cymmaint. Os ydych am brawf fod *carbonic acid* yn cael ei daflu allan o'r

gwaed trwy yr ysgyfaint a'r anadl, dodwch ddwfr gloew tros galch brwd mewn costrel wydr, a chwythwch ynddo trwy gwilsen. Chwi gewch weled y dwfr yn troi yn wyn. Yr achos yw fod *carbonic acid* sydd yn yr anadl, a'r calch anweledig yn y dwfr, yn cyffwrdd a'u gilydd, ac yn ffurfio y peth a eilw y fferyllydd *carbonate of lime*, neu sialc. Nid oes dim a wna hyn ond *carbonic acid*, o ganlyniad mae *carbonic acid* yn cael ei daflu allan o'r gwaed gyda phob anadliad.

Hefyd, os ydych am brawf fod yr un elfen wenwynllyd yn cael ei thaflu allan trwy y *pores*, eilliwch gi, neu ddafad, neu fochyn, yn lân o'i flew, a dwbiwch ei gorph drosodd a phaint. Chwi welwch y bydd y creadur farw mewn ychydig amser. Os y gollyngwch ei waed cyn yr oera, chwi ganfyddwch fod ei liw yn ddugoch anghyffredin. Dyma effaith *carbonic acid* ar y gwaed. Yr oedd wedi cael ei luddias i ddod allan trwy y chwysdyllau gan y paint, o ganlyniad yr oedd wedi cwympo yn ol ar y gwaed a'i wenwyno.

Mae yr ammhuredd hwn hefyd yn difwyno y dillad nesaf i'r croen. Wedi i'r gwlybwr neu y tarth sychu, mae'r *carbonic acid* a'r gres yn glynu wrth y croen a'r dillad, yn enwedig y rhai nesaf i mewn. Y canlyniad yw fod y *pores* i raddau yn cael eu tagu gan y sylwedd drewllyd. Am hyny, er mwyn iechyd a glendid corphorol, mae yn ofynol newid y dillad yn fynych, a golchi y croen bob boreu â dw'r a sebon, er mwyn cadw y *pores* yn lan, a symud y rhwystr ar eu ffordd i daflu allan ammhuredd y gwaed.

Nid oes braidd eisiau bellach i sylwi fod brynti ar y croen a'r dillad yn dra niweidiol i iechyd. Dynion brwnt eu cyrph sydd yn fwyaf agored i anwyd, a *bronchitis*, a thwymynon, ac hefyd yn y diwedd i gonsumsiwn. Tybia rhai fod yn ddigon, er mwyn glendid, iddynt olchi eu gwynebau bob dydd; ond camsynied yw hyn. Yn gymmaint ag nad oes funud nad yw'r *pores* yn taflu allan ammhuredd o'r gwaed, nis gall neb fod yn eithaf glan, ond y sawl sydd yn golchi eu cyrph bob dydd, haf a gauaf, ac yn mynych-newid eu dillad nesaf i'r croen. Yn wir, dylai fod y'mhob teulu le a moddion addas at y gwaith. Pe gwnelid hyn yn gyffredin, byddai llai o glefydau yn ein gwlad. Brynti dynion yn eu tai a'u personau yw'r achos fod cymmaint o afiechyd. Nid oes neb a wyr hyn yn well na'n meddygon. Pwy na sydd wedi teimlo y pleser a fwynheir wedi golchi y corph drosodd â dw'r a sebon, a newid y crys? Mae y teimlad cysurus yn deilliaw oddiwrth fod y *pores* wedi eu glanhau yn gwneuthur eu gwaith yn hwylus.

Cymmaint a hyn y'nghylch glendid y croen a'r dillad. Mae yn bwnc pwysfawr. Am hyny, wragedd, os ydych am gadw y gwr teilwng hwnw allan o'ch ty, yr hwn a elwir "y Doctor," gofalwch fod eich teuluoedd yn cadw eu crwyn yn lan, a pheidiwch arbed dw'r a sebon, ac na chlowch y cwbwrd.

HEN LYTHYRAU O GYMRU.*

LLYTHYR IV.

[At Mary Powell, Pencader, America.]

Bargod, Hydref 19, 1720.

Anwyl Chwaer:—Yr oedd yn llawenydd o'r mwyaf genyf fi a'r teulu oll gael eich llythyr a deall eich bod yn iach, fel yr ydym ninnau i gyd ar hyn o bryd. Mi fum i yn clafyca am wythnos neu ddwy yn y gauaf, ond yr wyf yn eithaf da yn awr. Yr oedd yn dda iawn gan nhad gael cymmaint o hanes y wlad a'i ffrwythau, ac yn neillduol gael cymmaint o hanes ei hen gyfeillion symmudodd yna tua 15 mlynedd ar hugain yn ol. Y mae yn hiraethu ambell dro na buasai yntau wedi d'od drosodd yr amser hwnw. Byddai yn dda iawn genym oll eich gweled, ond yn neillduol gan fy mam.

**Allan o "Faner America," Awst* 17, 1870.

Yr oeddech yn gofyn am sefyllfa yr achos yn Pantycreuddyn yn awr. Y mae yma grynoi mawr i wrando, ac y mae yma fwy o aelodau na phan oeddech chwi yma, a gwell canu o lawer, ac y maent yn dyweyd fod Mr. Lewis yn gwella i bregethu bob blwyddyn. Y mae yma ddyn ifanc lled lew o'r enw Jenkin Jones wedi codi i bregethu; mab Goetre-isaf. Y mae yn ysgol Caerfyrddin yn awr. Ond y mae Mr. Lewis ac amryw o'r prif ddynion yn groes iddo, oblegid ei fod yn pregethu rhyw beth y maent yn galw Arminiaeth arno, ond y mae rhai yn lled frwd drosto, yn enwedig o'r bobl ifainc. Y mae fy nhad yn ochri gyda Mr. Lewis, ac yn dyweyd fod Arminiaeth bron cynddrwg a Phabyddiaeth. Y mae'r mater hwn wedi peri cetyn o ddiflasdod yn yr eglwys.*

Y mae Sarah, merch Gellifaharen, wedi ffaelu byw gyda'i gwr meddw, ac wedi d'od yn ol at ei thad, a'i merch fach gyda hi. O! 'r oedd yn galed arni wedi myned allan trwy y ffenestr, a phriodi heb yn wybod i'w thad a'i mam, i orfod d'od yn ol atynt wedyn, yn wael ei gwedd, a bron heb un crys ar ei chefn, a bron newynu.

Y mae amgylchiad wedi cymeryd lle yn y gymydogaeth yn ddiweddar sydd wedi achosi teimladau rhyfedd iawn. Fe ddaeth Macdonald y Scotshman i'r ardal un diwrnod, a phac llawn iawn ganddo. Yr oedd wedi galw mewn amryw dai, ac yr oedd y swn wedi myned allan ei fod wedi d'od i'r ardal, a dysgwyliad cyffredinol am dano. Aeth yn lled hwyr i Blaenycwm, a lled debyg iddo gytuno aros yno dros y nos. Beth bynag, ni welwyd ef ar ol hyny yn unlle trwy yr holl ardaloedd. Yr olwg ddiweddaf welwyd arno oedd yn myned fyny at dy Blaenycwm; ac y mae sibrwd 'rhyd yr ardal fod rhyw beth ofnadwy wedi dygwydd iddo yno. Yr wyf yn deall i Shaci, gwas Penyrallt, weled rhyw beth rhyfedd y noswaith hyny gerllaw Blaenycwm, wrth dd'od yn ol o garu. Nid wyf yn sicr beth welodd ef, ond mae wedi dyweyd llawer yn ddystaw wrth nhad, ac yr oedd nhad eisiau myned yn y fan at y Llwyd o Fronwydd i gael gwarant i ddal Evan Blaenycwm, ond yr oedd mam bron colli arni ei hunan pan soniai am hyny, ac yn dyweyd, "Cofiwch geffyl Dafydd Pantybrwyn." Ac felly nid oes dim byd wedi ei wneyd, ac y mae Evan yn parhau i rodio y byd mor benuchel a neb. Y mae Shaci wedi dyweyd yr hanes yn ddystaw wrth eraill, ac y mae rhyw si ryfedd trwy y gymydogaeth; ond nid oes neb yn mentro i ddyweyd dim yn eglur, dim ond siarad trwy y niwl. Sylwir fod teulu Blaenycwm yn cael wmbredd o ddillad newydd eleni, a bod Evan yn swagro yn llydan ofnadwy, a llon'd ei bocedi o arian. Y mae yn galw yn fynych yn nhafarn Nani Danyrallt, a chanddo ddigon o arian bob amser, ac y mae yn wr mawr iawn yn y ffeiriau trwy yr holl wlad. Y mae yn ammhosibl i fi roddi ar ddeall i chwi y fath deimlad mae'r amgylchiad hwn wedi achosi trwy yr holl ardal, ac mae'n ddrwg gan fy nghalon i fod mam wedi dyor nhad i godi gwarant ar Evan, oblegid yr wyf yn credu fod yn llawn bryd i'r hen serwb gael ei grogi. Ond peidiwch son dim am hyn wrth ysgrifenu yn ol.

Cafodd Mali'r Alltgoch ei chladdu tua mis yn ol. Druan â hi, ni wellaodd byth ar ol i Cati Twm Tincer ei *witshio* hi! Mae fy natur yn cyffro bob tro y gwelwyf Cati, ac yr wyf yn teimlo yn ddigon dig wrthi i grafu ei llygaid i maes o'i phen; ac yr wyf yn myned mor grac a'r hen fachgen ei hunan, wrth weled mam yn rhoi ffiolaid fawr o flawd i'r hen filanes, rhag ei hofn, bob tro y delo i'n ty ni.

Fe welodd Beti, ein morwyn ni, deulu Mali'r Alltgoch oddeutu tair wythnos cyn iddi farw. Yr oedd Beti yn myned tua thy ei thad ar noswaith lled dywyll. Ar hyd ffordd eglwys yr Alltgoch yr oedd yn myned, ac teimlo yn eithaf calonog, ac yn canu,

> "Fe aeth Gwen i ffair y Fenni,
> Eisiau crochan pridd oedd arni," &c.

Yn ddisymwth tywyllodd y cyfan o'i chylch a theimlodd ei hunan yn cael ei gwasgu, ac fel yn cael ei chodi oddiwrth y ddaiar, a'i chario'n mlaen fel mai prin y teimlai ei thraed yn cwrdd â'r llawr. Dybenodd ganu yn y fan, a chafodd ofn arswydus. Nid oedd yn gweled un cydewyn mwy na phe buasai ym mola buwch; ond yr oedd yn gwybod oddiwrthi ei hun, ac yn clywed rhyw si a thrydar dycithr iawn o'i chwmpas: Ym mhen tro hir tarawodd wrth ryw beth, a dcallodd ei bod wrth glwyd y fynwent. Syrthiodd i lawr mewn dychryn ar y ddaiar, a gwelai rhyngddi a'r awyr ddynion yn myned heibio ar ol eu gilydd; ac yn y man dyna elor â phedwar o tani yn myned i mewn, a lluaws ar ol hyny. Cododd ei swper i gyd yn ol yn y fan hyny; ac yna ceisiodd godi ac ymlusgo i dy ei thad. Yr oedd wedi cael ei chario fwy na milltir dros y ffordd. Bu yn galed iawn arni gyrhaedd ty ei thad, ac wedi myned i mewn i'r goleu cafodd lewyg, a bu yn farw am tua chwarter awr. Bu gartref yn sal am dri diwrnod cyn gallu dyfod yn ol. Yr oeddem yn ofni y diwrnod cyntaf ei bod hithau wedi myned i blith y tylwyth teg, fel Gweni Blaenycwm, ond aeth Siencyn yno ar gefn y gaseg fal, a chafodd hi yn y gwely yn sal.

Yr oeddech yn holi pa bryd yr wyf yn myned i briodi. Yr wyf yn sicr na phriodaf am rai blynyddau, os priodaf byth. Ond yr wyf yn caru cael tipyn o lawenydd weithiau gyda'r bobl ifainc, a dala pen rheswm gydag ambell fachgen am awr neu ddwy ambell dro. Bu genym bynwent yn y felin y gauaf diweddaf, ac yr oedd llawer o bobl wedi dyfod yn nghyd yno, a chawsom ddifyrwch anghyffredin yno with chwareu a clebran pob peth. Yr oedd Wil Rees, Penrhiw, ac Evan Bwlchgwyn, yn talu am y mwyaf o sylw i mi. Aeth Evan i drin a rhegu Wil yn lled drwsgl, ond yr oedd Wil mor dawel a bonyn cabetshen. Nid yw ef yn ddigon smart a chalonog, am hyny nid wyf wedi dangos dim serchogrwydd iddo; ond yr wyf yn deall fod ganddo getyn o olwg arnaf, ond byddai'n llawn cystal iddo feddwl am rywun arall.

Fe fu Siencyn fy mrawd yn dawel am flynyddau yn nghylch y merched, ond y mae'n ddiweddar wedi myned yn lled dyn ar ol Mali'r Pant. Mae'n ferch lled fawr, ond nid yw yn ferch lân. Mae'n ddrwg genyf fod Siencyn yn myned ar ei hol, oblegid nad oes dim bola da rhyngom. Mi glywais ei bod hi'n dyweyd ei bod yn rhyfeddu fy mod i yn cadw cwmni Evan Bwlchgwyn, ac yr wyf finnau yn ffaelu deall beth yw y gwahaniaeth iddi hi pa gwmni fyddaf yn gadw. Gofaled hi am dani ei hun, a gadawed fi yn llonydd. Mi wnaf fy ngoreu i hala rhwng Siencyn a hithau. Yr wyf wedi troi mam yn ei herbyn yn barod, a meddwl yr wyf y bydd rhaid iddi edrych am wr heb law Sianco ni. Buasai yn well i'r feiden benuchel adael llonydd i fi. Yr wyf yn meddwl fod Evan Bwlchgwyn yn llawn cystal a hi, beth bynag.

Bu plwyfi Llandysul a Llanwenog yn cicio pel droed am y goreu dydd Nadolig diweddaf. Yr oeddent wedi bod yn parotoi am fisoedd, a daeth cannoedd yn nghyd i edrych arnynt. O anfodd nhad yr es i yno, ac fe ballodd yn un gwedd â gadael i Siencyn fyned. Hen greadur pengam ofnadwy yw nhad, ac yr wyf yn meddwl ei fod yn myned yn fwy pengam bob dydd. Y mae bron fy hala i ddyweyd geiriau cas wrtho ambell dro. Nid oes dim yn iawn yn ei olwg ond y peth y mae'r Beibl a Lewis, Dinas Cerdin, yn ei ddyweyd. Yr oedd llawer wedi macsu yn barod erbyn y bel droed, a myned â bwyd a diod gyda hwynt yno; a dyna redeg a chicio, a swn a gwaeddi oedd yno. Un ochr yn enill 'nawr, a'r llall bryd arall; ond Llandysul oedd yn cario fynychaf. Rhoddwyd heibio chwareu am awr haner dydd, i gael bara a chaws a chwrw, a phob un mor llawen a'r gog. Yn fuan wedi dechreu chwareu y prydnawn, aethant i gwympo maes â'u

gilydd, a rhegu, a throedio eu gilydd. Yr oedd rhai o honynt wedi meddwi, a'r lleill wedi yfed gormod, ac yr oedd golwg ofnadwy arnynt yn curo eu gilydd; a'r merched yn rhedeg a 'sgrechain, ac yn ceisio achub eu brodyr a'u cyfeillion; ond waeth beth wnelai neb, ymladd y'mlaen yr oeddynt fel *bulldogs*. Yr wyf yn meddwl iddynt fod wrthi am awr, nes i wŷr Llanwenog orfod cilio. Yr oedd Evan Bwlchgwyn wedi yfed ar y mwyaf i amddiffyn ei hun, a chawsai haner ei ladd oni buasai Sioned ei chwaer a finnau ei lusgo oddi yno. Fe wedwyd fod un bachgen o Lanwenog wedi ei ladd. Fe fu'n farw am dro, ond daeth ato'i hun, ac y mae wedi gwella. Cafodd Twm Penddol ei gicio yn lled ddrwg oblegid ei fod yn rhy feddw i ofalu am dano ei hun. Llawer o siarad sydd am y frwydr y'mhob man, ac y mae'r ddau blwyf yn bygwth myned yn nghyd â hi eto, gyda ffyn, ryw amser yn yr haf. Maent yn dyweyd fod bechgyn Llanwenog yn rhai cethin gyda'r bastwn. Yr oedd Siencyn ni ar swper y nos hono'n dyweyd, "Diolch i chwi, nhad, am fy stopio i fyned yno. Mae fy nghroen yn gyfan a'm pen yn iach yn awr." Yr oedd yn gas genyf ei glywed. Y mae Siencyn yn ormod o hen wlanen o lawer. Buasai yn dda genyf fod yn fachgen yn ei le i gael ymladd dros y plwyf. Fe rows Sali Blaenycwm eitha' grasfa i fachgen o Llanwenog. Yr oedd yn ei daro â'i dwrn nes oedd ei waed yn pistyllo bob ergyd. Bu Mr. Lewis, y gweinidog, yn gweyd yn hallt iawn am y peth yn Pantycreuddyn ar ol hyny, ac yn llefain fel babi yr un pryd, a nhad a mam, a'r hen bobl, yn llefain gydag ef; ac y maent wedi bod yn cadw cyrddau gweddi yno droion ar ol hyny i weddio dros y bobl ifainc; ond nid wyf yn gweled y bobl ifainc un mymryn yn well ar ol iddynt weddio drostynt.

Rhaid i mi derfynu bellach. Y mae wythnos er pan ddechreuais ysgrifenu y llythyr hwn, ac yr wyf yn ofni y byddwch yn dyweyd wrth ei ddarllen, fy mod yn myned yn ddwlach o un tro i'r llall.

Eich serchus chwaer,

ANNA BEYNON.

---

* O ganlyniad nid oes dim sail i gasglu, fel y gwna Dr. Rees yn ei *Nonconformity in Wales*, sef nad yw yn debygol i Jenkin Jones broffesu Arminiaeth yn gyhoeddus cyn ei ordination yn 1726, oblegid pe buasai hyny yn bod, mae yn amheus y ceid neb yn Nghymru i'w ordeinio. Y canlynol yw geiriau y Doctor :—

"It is almost certain that he (Jenkin Jones, Llwynrhydowen,) had not openly professed Arminianism previous to his ordination; for, if he had, it is doubtful that any minister in Wales would have consented to ordain him," p. 297, 8, published in 1861.

Mae hyn yn dangos mor ochelgar y dylai hanesydd i fod yn ei waith yn tynu casgliadau oddiwrth ei dybiaeth ei hun. Y Parch. J. Jenkin Jones, M.A., dynodd cin sylw ni at hyn, er mwyn gwneyd cyfiawnder â chymeriad Jenkin Jones, yr hwn yn ol tystiolaeth Anna Beynon yn y llythyr uchod, oedd yn pregethu Arminiaeth, o leiaf chwech mlynedd cyn ei ordeinio.—GOL.

"Aeth J. J. i Goleg Caerfyrddin yn 1721. Cyhoeddodd, tra yn y Coleg, "Llun Agrippa," 1723. Urddwyd ef yn 1726 yn y Ciliau. Adeiladodd Llwynrhydowen yn 1726. Bu farw yn 1742. Ei wraig oedd merch Pantydefaid."

Y PARCH. J. JENKIN JONES, M.A.

[Mae Anna Beynon yn dyweyd ei fod yn *ysgol* Caerfyrddin pan oedd hi yn ysgrifenu y llythyr uchod, sef Hydref 19, 1720.—GOL.]

I Mr. Jones yr ydym hefyd yn ddyledus am y dyfyniadau canlynol:—

"Anfonwyd ef i dderbyn addysg i'r Athrofa a gynelid y pryd hwnw yn Abertawe.* Tra yr ydoedd yno, meddyliwyd ei fod yn gogwyddo at Arminiaeth, yr hyn a lanwodd fynwesau y rhai oedd yn eiddigeddus dros burdeb athrawiaethau yr efengyl a rhagfarn yn ei erbyn, yn enwedig Mr. Lewis a'i wraig. * * * Efe oedd y gweinidog a gyhoeddodd ac a amddiffynodd Arminiaeth gyntaf (?) yn Nghymru. Nid yw yn hysbys pa mor bell yr oedd ef wedi myned i olygiadau yr Ariaid, ond y mae yn eithaf amlwg ei fod yn Arminiad trwyadl yn ei farn."

Geiriadur Bywgraphyddol JOSIAH T. JONES, Cyf. 2, tud. 95, cyh. 1870.

"Jenkin Jones ydoedd y cyntaf yn yr oesoedd diweddar a ddechreuodd gyhoeddi golygiadau Arminaidd yn Swydd Ceredigion. * * * Gan yr ymddangosai yn gogwyddo yn gryf at Arminiaeth, gwelai na byddai heddwch iddo yn eglwysi yr Annibynwyr; ac felly cododd addoldy ar ei ystad ei hun yn Llwynrhydowen, lle yr urddwyd ef yn weinidog, Ebrill, 1726. ***Mae yn ymddangos iddo gelu ei olygiadau am ryw dymmor*** sef hyd y flwyddyn 1729, pryd y pregethodd o blaid Arminiaeth; ac efe, am rai blynyddau, oedd yr unig weinidog (?) a wnai hyny."

Enwogion Sir Aberteifi, gan GLAN MENAI, cyh. 1868.

"Tua 1729, ***efe a ddechreuodd*** bregethu golygiadau Arminaidd, ac efe oedd y cyntaf a ddechreuodd ddadleu hyny yn y wlad. Cafodd ei ategu gan Abel Francis, Rhys Davis, Ysgolfeistr, a Charles Winter."

Enwogion Ceredigion, gan GWNIONYDD, cyh. 1869.

Ein Heglwysi.

EIN HYSGOLION SUL.

AR ARCH Mr. Jones, a throsto ef, mewn cydsyniad a'ch cais chwi, wele fi'n anfon i chwi yr ystadegau canlynol, gyda gobaith y ceir hwy yn gywir. Ceir rhif yr ysgolheigion gwrywaidd yn y golofn (1); menywaidd (2); cyfanswm (3); cyfartaledd, neu *average attendance* dros y flwyddyn, bore (4); prydnawn (5); rhif yr athrawon, gwrywaidd (6); menywaidd (7); *average attendance* yr athrawon (8); rhif yr ysgolheigion dros 15 oed (9); cyfiwr presenol yr ysgol mewn cydmariaeth i'r hyn oedd y llynedd (10).

YR YSTADEGAU.

ENW YR YSGOL.	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10
Aberdar	34	28	62		59	6	2	7	32	yn llai.
Abertawe (Swansea), School discontinued.										
Alltyplaca. Wedi ei chau o ddiffyg athrawon.										
Capel-y-Bryn	25	15	40	25	32	3	2	4	18	yn well.
Capel-y-Fadfa	30	25	55	50	52	8	1	9	25	yr un.
Capel-y-Groes	30	25	55	25	20	7			40	yn well.
Ciliau	14	16	30	24	26	4		3	16	yr un.
Cribin	35	20	55			5	3		20	yn well.
Cwmbach	24	23	47		33	4	3	5	5	yn llai.
Llwyn-rhyd-owen	17	23	40	36	36	8		7	24	yr un.
Llandysul. No return.										
Merthyr Tydfil	45	24	69		38	7	3	10	40	yr un.
Pant-y-defaid	35	45	80	65	60	8	2	10	40	yn llai.
Rhyd-y-gwin	19	18	37	29	30	3	1	3	20	yn well.

* Caerfyrddin yn hytrach. Gweler hanes y Coleg gan Dr. Thomas Rees.

SEFYLLFA EIN HOLL YSGOLION YN LLOEGR A CHYMRU ODDIAR 1865.

	RHIF YR YSGOLION.	RHIF YR YSGOLHEIGION.	Y RHIF O BOB CANT YN BRESENOL.	
			Bore.	Prydnawn.
1871	181	22064	58	73
1870	187	23113	60	73
1869	185	22381	59	71
1868	180	22142	61	73
1867	181	21917	58	71
1866	171	21030	60	71
1865	170	21123	60	72

Mae yn yr 181 o ysgolion 22,064 o ysgolheigion, y rhai a roddant *average* o 122 i bob ysgol. Yn yr ysgolion hyn, cawn fod dros un yn rhifo dros 500; pedair dros 400 yr un; naw dros 300; chwech dros 250; un-ar-ddeg dros 200; dau-ar-bymtheg dros 150; un-ar-ddeg-ar-hugain dros 100; dau-ar-bymtheg dros 80; saith-ar-hugain dros 50; dau-ar-bymtheg-ar-hugain dros 30; un-ar-hugain dan 30.

Y'mha le y saif ein hysgolion ni yn Nghymru yn awr mewn cydmariaeth i'r hyn oeddynt y llynedd a'r blynyddau o'r blaen? Ai yn gwella y maent neu ynte yn gwaethygu? Dyma ofyniad a gyflwynaf i ystyriaeth athrawon pob ysgol.

Aberdâr, Awst 14, 1871. P. R. G.

Bywgraffiad.

WILLIAM MORGAN, YSWAIN.

TRWY ryw esgeulusdod neu gilydd canfyddaf fod marwolaeth y boneddwr hwn wedi cael ei adael allan o dudalenau yr YMOFYNYDD, er y credwyf fod yr ymadawedig yn wrthrych gwir deilwng o goffadwriaeth. Amgylchiad ei farwolaeth oedd fel y canlyn:—Prydnawn dydd Sadwrn y 25ain o Chwefror diweddaf yr oedd yn dychwelyd adref o farchnad Penybont-ar-Ogwr ar gefn ceffyl tra gwyllt a rhwyfus. Pan yn agos i bont y reilffordd ar bwys Llangrallo, cafodd y creadur ofn, ac aeth yn afreolus. Y canlyniad fu iddo redeg, ac i'w feistr, rywfodd, daro ei ben yn erbyn piler y bont, a chael y fath niwed fel y bu farw mewn ychydig funudau! Yr oedd yn 45 oed, a gadawodd weddw a merch fechan, ddwyflwydd oed, heblaw rhieni, brawd, a thair chwaer, i alaru ar ei ol. Mab ydoedd i Leyshon Morgan, Yswain, o Tremains, ger Penybont, ond gynt o Ddyffryn Nedd—un o deulu hen a chyfrifol Morganiaid Abernanthir. O ochr ei fam yr oedd yn dyfod o deulu Price, Yswain, Glyn-Llech-isaf, Swydd Frycheiniog. Yr oedd felly, o ran ei dad a'i fam, yn dyfod o ddynion urddasol a pharchus. Adwaenai yr ysgrifenydd yr ymadawedig yn eithaf da, fel yr adwaenai

lawer o'i berthynasau er ys haner can' mlynedd, a gall ddyweyd yn ddidderbyn wyneb ei fod yn foneddwr o'r iawn ryw. Er yn berchen ar lawer o drysorau y byd, ni wyddai ddim am falchder ffroenuchel a ffol. Yr oedd yn feistr tyner, caredig, rhwyddgalon, a'i holl hyfrydwch oedd ymgyfeillachu â'r deiladon. Parod iawn bob amser i esmwythau pob baich, gan ychwanegu beunydd at ddedwyddwch ei geraint a'i gyfeillion. Ar yr ail o Fawrth cludwyd ei weddillion marwol at ei hynafiaid yn mynwent Eglwys Aberpergwm, Glyn-Nedd, i orphwys hyd y dydd mawr. Nerth y Tad Nefol gaffo ei weddw a'i berthynasau anwyl i ddal i fyny tan ergyd mor drwm ac annisgwyliadwy, ac i roddi eu holl ymddiried yn ei gariad, heb amheu dim nad yw pob peth, hyd yn nod y dygwyddiadau mwyaf chwerw, yn cydweithio er lles tragwyddol y sawl sydd yn ofni ac yn caru Duw.

W. Williams ("Carw Coch"), Trecynon.

Atebion a Gofyniadau.

Ateb i Ofyniad Ioccyn Ddu, tud. 187.

Rhoddwch i'r cyntaf 3 casgen lawn, 3 wag, ac un haner llawn; i'r ail yr un rhif, ac i'r trydydd, un lawn, 5 haner-llawn, ac un wag. Felly bydd gan bob un o honynt dair casgened a haner o gwrw, a phob i saith casgen.

Lerpwl. Cardi glan Cerdin.

Derbyniasom hefyd ddau ateb oddiwrth "Wil Shams." Mae un o honynt yr un peth ag ateb "Cardi glan Cerdin." Y llall sydd fel y canlyn:—Rhoddwch i un 2 lawn, 3 haner-llawn, a 2 wag; i'r llall yr un peth; ac i'r trydydd 3 lawn, un wag, a thair haner-llawn. Derbyniasom hefyd yn ddiweddarach gyffelyb atebion oddiwrth T. Davies, Dolbwba, a John Davies, Bryn-yr-eithin.

Ateb i'r ail Ofyniad, tud. 187.

Y rhif leiaf yw 301. Ychwanegwch at y rhif 420 a chwi a gewch yr ail rhif, sef 721. 'Chwanegwch at hwn eto 420, a chwi gewch y trydydd rhif, sef 1141, ac felly yn y blaen yn ddiddiwedd. Wil Shams.

Ateb i'r pedwarydd Gofyniad, tud. 187.

Ystyrir yn gyffredin fod pum' math o'r hil ddynol, y *Caucasiad*, yr Ethiopiad, y Mongoliad, y Malayad, ac Indiad America. Un o'r Caucasiaid.

[Buasai yn fwy boddhaol i'r darllenydd pe y rhoddasai "Un o'r Caucasiaid" ddesgrifiad byr o bob un. Gobeithio y gwna hyny erbyn y nesaf. Derbyniasom ateb rhagorol oddiwrth "Ffermwr Ieuainc" i'r gofyniad diweddaf. Gobeithio yr esgusoda ni am beidio ei gyhoeddi yn y rhifyn hwn er mwyn iddo gael ymddangos yn llawn. Yr ydym wedi ateb y gofyniad y'nghylch y Mab afradlon yn ein Esboniadau.—Gol.]

Gofyniadau.

1. Dywedwch beth yw'r swm o arian mewn punnoedd a sylltau, yr hon o'i rhanu â 2 a wrthdroa (*reverse*) y punnoedd a'r sylltau?

I Blant yr Ysgol Sabbothol.

1. Paham y llefarai Crist mor fynych mewn damhegion?

2. Pwy oedd y Phariseaid, a pheth oedd eu syniadau crefyddol?

3. Beth yw meddwl y gair Rabbi?

4. Beth oedd y publicanod, a phaham y caseid hwynt gan yr Iuddewon?

5. Paham y tywalltodd Mari Magdalen enaint ar ben yr Iesu pan yn nhy Simon? (Marc xiv. 3.)

6. Paham mae Crist yn cymeradwyo ymddygiad Mari, ac yn beio ar Simon?

7. Beth yw dyben llyfr Job?

8. Eglurwch y rheswm pa fodd y gallasai Crist ddyweyd wrth gyfeillion Lazarus, "Gollyngwch ef yn rhydd, a gadewch iddo fyned ymaith?" Ioan xi. 44.

9. A oedd Iesu Grist yn Dduw gogyfuwch a'r Tad? Os nad oedd; pwy resymau sydd genych i gredu nad oedd?

Bu Farw.

Thomas Miles, o Drefach, Llanwenog, Ebrill 8, yn 76 oed. Claddwyd ef y dydd Mercher canlynol ym mynwent Alltyblaca. Pregethwyd yn ei angladd yn y tyewrdd gan y Parch. J. Davies, y gweinidog. Yr oedd y trengedig wedi gorchymyn i Preg. vii. 13 fod yn destyn y bregeth yn ei angladd. Bu yn aelod gweddaidd a pharchus yn Alltyblaca am flynyddau lawer, ac yn dwyn mawr sel dros y golygiadau crefyddol oedd mor werthfawr yn ei olwg. Bydded y sicrwydd gwynfydedig sydd genym, yn adgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist, o gael ailgyfarfod mewn bywyd gwell a'r sawl a fu yn anwyl i ni yn y byd hwn, gysuro ei blant yn eu galar ar ol rhieni tyner a duwiol. Cofiwn bob amser mai "Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd."

[Yn ddiweddar ac yn ddamweiniol y clywsom am farwolaeth y dyn da hwn, onite buasai wedi ymddangos yn yr Ymofynydd, o'r hwn yr oedd yn wastad mor hoff, lawer yn gynt.—Gol.]

John Davies, mab Isaac a Mary Davies, Cwmpenar, gynt o'r Bontnewydd, Ceredigion, Mehefin 25, yn 19 oed. Cafodd yr ymadawedig ei gystuddio am amser maith, ond dioddefai ei gystudd trwm yn hynod o amyneddgar. Yr oedd yn hoff o ddarllen yr Ymofynydd a gwahanol lyfrau eraill ag a allai ddyfod o hyd iddynt. Nerth gaffo ei rhieni galarus a pherthynasau agos i ddal i fyny y'ngwyneb colli un mor anwyl yn eu golwg hwy, ac mor barchus gan bawb a'i hadwaenai. Claddwyd ef y dydd Mawrth canlynol yn *Cemetery* Mountain Ash, ger Aberdar. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach.

Elizabeth Davies, o Felindre, ger Llanbedr, Gorphenaf 31, yn 60 oed. Nid oedd wedi cael iechyd da, er pan marw ei gwr, rywbeth dros 18 mis yn ol. Mynych cwynai yn herwydd ei hafiechyd, eto ymddangosai'n foddlawn, er yn teimlo na ddygai eto ddydd iach hyd ei marwolaeth; ond wele hi bellach wedi croesi y cyfwng sydd yn cydio amser a thrag'wyddoldeb. Bu'n aelod ffyddlawn iawn am flynyddau lawer yn Nghapel Cae'ronen. Ond yn awr ffarwel it', chwaer anwyl, yn iach it, fam dyner; yn iach, gyfeilles hoff; nis gwelwn di yma mwy; ond ni a'th adawn di gyda'r Tad tirion yn gwbl ddibryder, gan deimlo yn berffaith hyderus y gwna Barnwr yr holl ddaear farn gyfiawn. Gwenau y Tad mawr fyddo yn cysuro ac yn dyddanu y galarwyr yn eu trallod. Galluoger hwy i weled y Llaw, a phwy sydd yn llywodraethu. Heddwch Duw fyddo gyda hwy, a choder rywrai eto yn fuan i lanw y bylchau a wneir gan yr angeu yn rhengoedd Israel Duw.

ARGRAFFWYD GAN C. & D. JONES, LLYFRWERTHWYR, CAERFYRDDIN.